

Enw	Amrywiol
Uwch gynhyrchydd	Gareth Iwan Jones , Sioned Lewis, Cerian Arianrhod, Gruffudd Pritchard
Slot	16:00-16:30 ar ddyddiau Sul
Nifer	Hyd at 26 o raglenni
Hyd	27 munud a hanner
Pris	£2,000 - £4,300 ar gyfer y rhaglenni sydd ddim yn ddramâu. Mae pris dramâu i'w drafod
Briff	Rydym yn chwilio am ystod eang o raglenni ffeithiol / nodwedd / adloniant / drama, gyda'r bwriad o gomisiynu amrywiaeth o bynciau a thriniaethau ar draws y flwyddyn. Gyda Radio Cymru yn troi yn 50 yn 2027 rydyn ni'n chwilio am straeon pobol Cymru, rhaglenni gyda naratif cryf wedi crefftio yn ofalus o ran gwedd sain a hefyd amrywiaeth o leisiau (yn cynnwys lleisiau sy'n newydd i Radio Cymru). Fe fydd y rhaglenni yma'n gwneud i bobol atal ac ystyried, chwerthin, crio ac weithiau'r cyfan gyda'i gilydd. Mae angen i'r rhaglenni ddweud rhywbeth wrthym ni am heddiw, er bod modd ymdrin â digwyddiadau o unrhyw gyfnod. Yn yr un modd fe all y driniaeth fod yn ddwys neu'n ysgafn. Y stori, a sut mae'r stori'n cael ei hadrodd, yw'r hanfod. Ymysg y rhaglenni sydd wedi bod yn boblogaidd gyda'n cynulleidfya ni eleni mae Ei Hanes Hi, Crwydro'r Garreg Las, Y Gân Sy'n Mynd I Achub yr Iaith, Trysorau o'r Mawn a Portmeirion yn 100 a Llai Unig, Llai Bord, Llai Horni. Gall eich cynigion fod yn rhaglenni unigol neu yn gyfresi. Eleni fe fyddwn ni'n comisiynu hyd at 26 o raglenni i'r slot yma ac felly, oherwydd yr angen i sicrhau amrywiaeth, rydyn ni'n annhebygol o fedru comisiynu mwy na 4 rhaglen mewn unrhyw gyfresi.

	Wrth gynnig eich syniadau(au) ystyriwch ble mae'r cyfleoedd i ni greu sylw o gwmpas y rhaglen, a hefyd sut fedrwch chi ein cynorthwyo ni i ddarparu cynnwys hyrwyddo cryf.
--	--